

CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW
LLANGERNYW COMMUNITY COUNCIL

Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Cyngor Cymuned Nos Fawrth Rhagfyr 19eg 2017 am 7.30 yr hwyr yng Nghanolfan Pandy Tudur

Ymddiheuriadau: Clwyd Roberts, Cyng Garffild Lewis

Presennol: Gwyn Williams (Cadeirydd), Diane M Roberts, R Emlyn Williams, Gwynfor Davies, Gerallt Evans, Ann Vaughan, Elen Edwards, Einir Williams a'r Clerc

Dewiswyd Elen Edwards i'r gadair i ddechrau'r cyfarfod.

74.1 DATGAN CYSYLLTIAD – rhoddwyd cyfle i'r aelodau ddatgan cysylltiad ag eitem ar yr Agenda.

74.2 COFNODION – edrychwyd ar gofnodion cyfarfod Tachwedd 20fed 2017 a'u pasio'n gywir. Cyrhaeddodd Gwyn Williams y cyfarfod a dod i'r gadair.

74.3 MATERION YN CODI O'R COFNODION

74.3.1 PWYLLGOR MYNWENTYDD (73.6) – wrth gael golwg manylach ar fynwent Llangernyw gwelwyd bod angen sythu mwy o gerrig – 21 ohonynt i gyd. Penderfynwyd gofyn am bris yn cynnwys y gwaith hwn. Byddai Emlyn Williams yn barod i fynd i gyfarfod y contractwyr. Hefyd penderfynwyd i gael arwydd Dim Parcio ar giât Mynwent Llangernyw.

74.3.2 DIFFIBRILYDD GWYTHERIN – yn dilyn gwneud cais am gymorth i Gyngor Conwy i gael trydan i arhosfan bws a toiledau Gwytherin cafwyd ateb yn nodi nad oedd yn debygol y gellid cael trydan yno ac yn cynnig safleoedd eraill yn y pentref. PENDERFYNWYD anfon copi o'r llythyr at ysgrifennydd Canolfan Gwytherin.

74.4 MATERION FFYRDD – derbyniwyd llythyr gan Iwan Ellis yn dilyn cyfarfod safle yn dweud ei fod am ddod draw i Langernyw i wneud arolwg cyflymder gyrru. Ond hefyd derbyniwyd llythyr gan swyddog arall Victor Turner yn nodi na all y Cyngor Sir ddarparu prosiect arafu traffig. Mae gwneud hynny yn “dibynnu'n drwm ar gyllid grant y Llywodraeth a hynny yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer lleoliadau sydd a hanes o wrthdrawiadau sydd wedi achosi anafiadau”. PENDERFYNWYD gofyn i'r Cynghorydd Garffild Lewis a fedr o gydlyn â'r swyddogion ac i holi pryd mae Iwan yn bwriadu dod.

74.5 CYFRANIADAU ARIANNOL – PENDERFYNWYD i gyfrannu £30 at Urdd Gobaith Cymru – Rhanbarth Conwy ond i beidio cyfrannu at Dawns i Bawb, Gwasanaeth Ambiwylans Cymru nac Eisteddfod Llangollen. Penderfynwyd i drafod cais Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy 2019 wrth drafod y Gyllideb. Cyrhaeddodd Einir Williams y cyfarfod.

74.6 MABWYSIADU BLYCHAU FFÔN – PENDERFYNWYD i arwyddo'r cytundeb gyda BT .a thalu £1 yr un am y ddau flwch ffôn (Llangernyw a Phandy Tudur). Hefyd i roi gwybod i Meira Woosnam, Glasdir ein bod mewn trafodaeth ynglyn â blwch ffôn Llangernyw ac i ofyn am syniadau gyda un Pandy Tudur.

74.7 PRAESEPT CYNGHORAU TREF A CHYMUNED 2018/19 - PENDERFYNWYD i gyfarfod ar nos Fawrth 9fed Ionawr am 8 o'r gloch i drafod y gyllideb. Angen anfon copiau o Gyllideb y llynedd i'r aelodau.

74.8 COFRESTR ETHOLWYR – y Clerc i anfon yr ebost i bob aelod. Rhaid i bob cynghorydd wneud cais yn unigol am gopi o'r Gofrestr.

74.9 CYFRAITH CYNLLUNIO YNG NGHMYMRU – PAPUR GWYN – angen ymateb erbyn Mawrth 1af. Deallir nad oes ystyriaeth i'r iaith Gymraeg mewn ceisiadau cynllunio yn y ddeddf newydd. Y Clerc i anfon yr ebost i bawb.

74.10 ADRODDIAD AGE CYMRU – i'w anfon ar ebost i'r aelodau.

74.11 CYFARFOD FFORWM CYNGHORAU CYMUNED A THREF CONWY – 31 Ionawr 2018 am 5.30. Y Cadeirydd ac Elen Edwards yn awyddus i fynychu.

74.12 GOHEBIAETH - y Clerc i anfon y canlynol i'r aelodau: Diwygio Etholiadol; Comisiynydd yr Heddlu; Panel Adolygiad Annibynnol Cynghorau Cymuned – ymateb erbyn 15fed Ionawr.

74.13 CAIS CYNLLUNIO RHIF 0/44654 Gosod 5 caban gweryslla a gwaith datblygu cysylltiedig ar dir yn Cefn Ffynnon, Pandy Tudur gan Mr & Mrs S Thomas – PENDERFYNWYD i gefnogi'r cais.

74.14 AWDIT ARWYDDION TWRISTIAETH – rhoddwyd gwybodaeth i Elen Edwards am arwyddion yn yr ardal ar gyfer awdit Conwy Cynhaliol.

74.15 MATERION LLEOL

74.15.1 Dwr yn llifo ar Allt Hafodunos a rhwng Plas yn Trofarth a Gell ac ymlaen at Ddolgoch.

74.15.2 Ffordd wedi cau am Wytherin – yn creu trafferth.

74.15.3 Dŵr yn llifo o ddwy ffos ger Bryn Gwylan

74.15.4 Bagiau sbwriel wedi eu gadael yng nghilfan (layby) Ainon.

74.15.5 Dŵr yn llifo i'r ffordd ger sied Coed Digain ac ar waelod allt Tyn Pistyll.

74.15.6 Llynogod wedi eu gweld yn Glan Collen a Pharc Aelas.

74.15.7 Polyn arwydd wedi ei daro ar gyffordd Hendre Ddu ac angen sôn am y polyn ger Capel Cefn Coch eto.

74.15.8 Cyflwr y ffordd ar y tro ar waelod allt Plas Matw angen sylw.

74.15.9 Swydd y Clerc – gan nad oedd neb yn dangos diddordeb gofynnwyd i bawb wneud ymholiadau a oedd rhywun i wneud y gwaith ac ar y cyfryngau cymdeithasol ac i ofyn i'r Cynghorydd Garffild Lewis ofyn am gymorth o'r Cyngor Sir.

74.15.10 Llongyfarchwyd Swigr a Sbeis am gael hanes eu cynnyrch yn y Times ac i Gerallt Evans am ei waith yn creu Cleddyf y Tywysogion allan o haearn yn Llanberis.

74.15.11 Angen sgubo allt Pandy Tudur gan nad oes pafin yno.

74.16 BILIAU

JK & E Roberts (gwaith ar y llwybrau)	£240
Cyfieithu Cymunedol (cofnodion dau gyfarfod)	£138.19
BT (mabwysiadu dau flwch ffôn)	£2
Y Gadlas (hysbyseb swydd Clerc)	£4

Daeth y cyfarfod i ben am 9.45 yh. *Cymeradwywyd y CofnodionDyddiad*